Datganiad i'r Wasg
Ebrill 2010

LLAWENYDD YN LLANDYBIE

Anrhydeddu enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes 2010

Enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes Urdd Gobaith Cymru eleni yw Jennifer Maloney o Landybie.

Dyfernir Tlws John a Ceridwen Hughes yn flynyddol i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru ac fe'i noddir gan Gerallt a Dewi Hughes yn enw eu diweddar rieni a oedd yn flaengar iawn ym maes datblygiad ieuenctid.

Enwebwyd Jennifer Maloney gan aelodau a rhieni Adran Penrhyd a Chyngor Tref Rhyaman oedd yn awyddus i ddangos eu diolchgarwch am lafur diflino a brwdfrydedd Jennifer yn arwain yr Adran ers 34 o flynyddoedd.

Ers ffurfio'r Adran nôl yn 1976 , mae cannoedd o blant wedi elwa o ddoniau Jennifer ym maes dawnsio gwerin, canu, llefaru, clocsio ac wrth gymryd rhan mewn caneuon actol. Mae Jennifer ei hun wedi bod yn cystadlu yn yr Urdd ers yn chwech oed ac mae ganddi dros dri chant o gwpanau a degau o darianau a medalau yn ei chartref yn Llandybie.

Roedd Jennifer yn awyddus i gychwyn yr Adran gan mai Saesneg oedd iaith ei chartref nol yn 1976 ac roedd hi am i'w phlant hi a phlant eraill yr ardal gael y cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Jennifer wybod ei bod wedi ennill y Tlws mewn noson arbennig yn Rhydaman ar nos Wener 16 Ebrill. Roedd dros 300 o bobl wedi dod yno i roi sypreis iddi.

Meddai Jennifer, "Fe ges i gymaint o sioc pan ffeindies i mas mod i wedi ennill. Roeddwn i wedi bod yn peintio'r tŷ y diwrnod hwnnw ac roedd paent yn dal i fod yn fy ngwallt! Pan gerddes i mewn i'r stafell a gweld criw yr adran, yr aelwyd, rhieni a chriw yr Urdd yno ro'n i methu credu. Fe es i yn dawel iawn, ac mae hynny yn hollol anarferol i mi! Yr hyn sydd wedi fy nghadw i fynd ar hyd yr holl flynyddoedd yw gweld y plant yn mwynhau. Dwi wrth fy modd yn cael rhoi rhywbeth yn ôl i'r Urdd gan fy mod i wedi elwa cymaint o'r mudiad ar hyd y blynyddoedd."

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau Urdd Gobaith Cymru: "Mae'n bleser gan yr Urdd ddyfarnu Tlws John a Ceridwen Hughes eleni i berson sydd wedi dod â chymaint o gyfleon, profiadau a llawenydd i fywydau plant ac ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn mudiadau gwirfoddol ac mae cyfraniad rhai fel Jennifer Maloney i'w cymuned ac i ddiwylliant Cymru yn amhrisiadwy."

Cyflwynir Tlws John a Ceridwen Hughes i Jennifer Maloney mewn seremoni ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion ar nos Iau, 3 Mehefin 2010.

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonwyn@urdd.org. Neu 07976 003303.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.